**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 31.10.25 |
| **Pwnc / Subject:** | Medr: Rhaglen Brentisiaethau yng Nghymru |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Ymateb

**Cyflwyniad**

Mae Estyn yn croesawu'n fras ddatblygiad rhaglen brentisiaethau newydd i Gymru ac mae'n cefnogi'r egwyddorion lefel uchel sydd wrth ei gwraidd. Ystyriwn fod hyn yn gyfle mawr i greu system brentisiaethau gydlynol, pob oed, gyda llwybrau clir o lefel 2 i lefel 6. Byddai un rhaglen a rhwydwaith o ddarparwyr yn lleihau darnio, yn cryfhau cydweithio ac yn sicrhau bod rhanddeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, rhieni a chyflogwyr, yn gallu deall y cyfleoedd sydd ar gael yn hawdd.

Mae ein gwaith arolygu yn dangos bod prentisiaethau yng Nghymru yn aml yn arwain at ddeilliannau cadarn, gyda dysgwyr llawn symbyliad, darparwyr ymroddedig a gweithio effeithiol mewn partneriaeth. Dylai'r rhaglen newydd fod yn gynhwysol ac yn uchelgeisiol, gan gynnig cyfleoedd i ddysgwyr o bob cefndir, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd. Mae gan ysgolion rôl hanfodol yn hyn; rhaid iddynt ddarparu cyngor ac arweiniad diduedd, o safon uchel, yn gynnar, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gwbl ymwybodol bod prentisiaethau yn llwybr a werthfawrogir.

Dylai cyflogwyr a darparwyr chwarae rhan lawn mewn dylunio, darparu a gwerthuso rhaglenni, gan sicrhau bod prentisiaethau yn parhau'n berthnasol i anghenion y sector, yn ymatebol i newid economaidd yn y dyfodol ac yn cael eu parchu'n llwybrau o safon uchel sy'n gydradd â llwybrau academaidd. Dylai cynnwys rhaglenni prentisiaeth adlewyrchu anghenion hyfforddiant presennol ond caniatáu hefyd am ddiwygiadau a chyflwyno cynnwys newydd, gydag amser arwain byrrach na'r sefyllfa ar hyn o bryd.

Hefyd, rydym yn pwysleisio cyd-destunau galwedigaethol ystyrlon. Dylai prentisiaethau fod yn hygyrch yn y Gymraeg a'r Saesneg. I gyflawni hyn, mae ar y rhaglen angen sefydlogrwydd o ran polisi a chyllid, mwy o hyblygrwydd mewn darparu a buddsoddiad parhaus mewn dysgu proffesiynol i weithlu'r darparwr.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Beth mae'r Rhaglen Brentisiaethau Newydd yn ceisio'i chyflawni

**C1: A ydyw'r egwyddorion lefel uchel hyn yn gywir ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd yng Nghymru?**

Ydyn, mae Estyn yn cytuno bod yr egwyddorion lefel uchel yn gywir ar gyfer datblygu'r rhaglen brentisiaethau newydd ohonynt yng Nghymru.

Datblygu un rhaglen brentisiaethau (a rhwydwaith o ddarparwyr) ar gyfer yr holl lefelau prentisiaeth yw'r cyfle pennaf wrth ddatblygu rhaglen brentisiaethau newydd o lefel 2 i lefel 6. Fe wnaeth contractio prentisiaethau hyd at lefel 5 a chomisiynu darparu prentisiaethau gradd yn flaenorol greu rhwydwaith darniog o ddarparwyr prentisiaeth, nad yw'n ffafriol ar gyfer creu llwybrau prentisiaeth trefnus sy'n glir ac yn hygyrch i bobl ifanc, rhieni, cyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill sy'n ymwneud â hyrwyddo prentisiaethau.

Bydd angen rheoli elfen cyllid grant y rhaglen newydd a gomisiynir yn ofalus er mwyn sicrhau cydweithredu go iawn rhwng darparwyr prentisiaethau, gan ganolbwyntio ar briod gryfderau pob darparwr ac adeiladu ar y partneriaethau cydweithredol effeithiol sy'n bodloni ar hyn o bryd. Mae'r rhwydwaith presennol yn aeddfed ac mae wedi gweithio'n dda i gryfhau gweithio mewn partneriaeth yn sylweddol. Bydd adeiladu ar y cryfder hwn yn fuddiol.

Mae cadw'r rhaglen pob oed yn bwysig hefyd er mwyn cydnabod bod prentisiaid yn gallu dechrau, gadael ac ailafael yn y rhaglen brentisiaeth ar adegau amrywiol yn eu gyrfa. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn tirwedd economaidd gynyddol ansicr, lle gall fod angen i unigolion ailhyfforddi neu newid sylw eu gyrfa sawl gwaith yn ystod eu hoes. Fodd bynnag, pan fydd darpar brentisiaid wedi gweithio yn yr un cwmni ac ymgymryd â'r un swydd am gyfnod hir heb fwriad i ymgymryd â rôl wahanol, mae angen ystyried hyn yn briodol.

Cytunwn fod angen i brentisiaethau fod yn gynhwysol ac rydym yn croesawu mentrau sy'n mynd i'r afael â thangynrychioli grwpiau penodol ar hyn o bryd.

Rydym wedi nodi bod angen annog a chefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn prentisiaethau. Rydym yn cefnogi egwyddor cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y rhaglen newydd a dylai mynediad teg at brentisiaethau yn y Gymraeg neu'r Saesneg fod yn nod hirdymor.

**C2: Sut gallwn ni wneud y rhaglen brentisiaethau yn fwy hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr, gan gynnwys ymateb i newidiadau economaidd, gofynion y farchnad lafur, gwahaniaethau rhanbarthol a thueddiadau gweithlu'r dyfodol yng Nghymru?**

Ffynhonnell rhwystredigaeth i gyflogwyr, darparwyr a rhanddeiliaid fu diffyg meini prawf cymhwysedd sefydlog ar gyfer dechrau prentisiaeth. Er bod y rhaglen wedi bod yn un 'pob oed' erioed, mae'r rheolau sylfaenol ar hyd gwasanaeth, oedran a chyflawniad blaenorol wedi newid yn fynych ac, yn aml, yn flynyddol. Mae hyn yn creu dryswch, yn gwneud cynllunio tymor canolig i dymor hir yn anodd ac mae'n achosi heriau i ddarparwyr wrth reoli'r berthynas â chyflogwyr.

Dylai'r rhaglen newydd sefydlu set glir a theg o feini prawf cymhwysedd, gan flaenoriaethu cyllid i'r rhai sydd fwyaf angen mynediad. Lle bo'n bosibl, dylai'r meini prawf hyn aros yn gyson i sicrhau tryloywder a hyder ar draws yr holl randdeiliaid. Dylai fod ffocws ar y rhai sy'n newydd i brentisiaeth. Ar hyn o bryd, yn enwedig mewn ychydig feysydd dysgu ac mewn prentisiaethau uwch, mae dysgwyr yn aml wedi cael eu cyflogi ers cyfnod sylweddol gyda'u cyflogwr ac, mewn ambell achos, nid oes ganddynt uchelgais i symud ymlaen yn eu rôl nac ymgymryd â rôl wahanol.

Dylai prentisiaeth addasu i anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Daeth y model cyllido wedi'i symleiddio a gyflwynwyd yn y cylch contractio diwethaf ag amserlenni cwblhau bras ar gyfer pob fframwaith, gyda goddefiad tybiannol o 20% ar gyfer cwblhau'n gynnar. Er bod hyn wedi

helpu i fynd i'r afael â phryderon am brentisiaethau a oedd yn amlwg yn fyr, nid yw'n meithrin dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a'r cyflogwr. Er enghraifft, mewn gweithgynhyrchu peirianneg, mae rhai darparwyr a chyflogwyr wedi cynllunio rhaglenni hirach a 'chulach', gyda diwrnodau astudio'n ymestyn dros dair i bedair blynedd, ac eraill yn defnyddio blociau byrrach a dwysach o hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith. Mae'r naill fodel a'r llall yn bodloni anghenion cyflogwyr a dysgwyr, ond nid yw'r strwythur cyllido presennol yn annog yr hyblygrwydd hwn. Mae perygl bod cosbi darparwyr yn ariannol pan fydd dysgwyr yn cwblhau yn gynt nag 80% o'r hyd disgwyliedig yn annog dylunio rhaglenni yn ôl rheolau cyllido yn hytrach na chynnydd dysgwyr. Dylai model cyllido newydd ganiatáu i ddarparwyr addasu rhaglenni gan ddiogelu ansawdd trwy ofynion isafswm cyfnod sy'n atal prentisiaethau rhag cael eu crynhoi'n wythnosau yn unig.

Mae angen hyblygrwydd mewn comisiynu, hefyd. Gallai Medr gadw cyfran o gyllid fel cronfa 'yn ôl y gofyn' i fynd i'r afael ag anghenion sgiliau sy'n dod i'r amlwg ac sy'n flaenoriaeth, gan adeiladu ar gronfeydd sgiliau â blaenoriaeth llwyddiannus o fewn y flwyddyn yn y gorffennol. Byddai hyn yn caniatáu i ddarparwyr gynllunio'u darpariaeth flynyddol gyda chyllid sylfaen, tra'n galluogi ymateb cyflym i newid mewn blaenoriaethau economaidd neu ranbarthol. Dylai setliadau cyllid aml-flwyddyn fod yn norm, gan roi sefydlogrwydd i ddarparwyr a'u cadwyni cyflenwi gynllunio ar gyfer y tymor canolig i hwy. Dylai contractau neu amodau cyllido ganiatáu am ailneilltuo neu addasu lle na fodlonir meini prawf ansawdd neu feini prawf perfformiad allweddol.

Rhwystr rhag hyblygrwydd yw gallu darparwyr i recriwtio a chadw staff addysgu a darparu â medrau digonol, yn enwedig mewn meysydd lle mae galw'r diwydiant yn tyfu'n gyflym. Dylai darparwyr weithio'n agosach â chyflogwyr i ddarparu dysgu ar y cyd, gan wreiddio prosiectau'r gweithle ac arbenigedd y diwydiant mewn addysgu ffurfiol. Eisoes mae enghreifftiau cryf ar draws Cymru lle mae darparwyr a chyflogwyr wedi cydweithio'n effeithiol ar ddylunio a darparu rhaglen, yn unol â'u priod gryfderau.

Mae angen i gynnwys prentisiaethau fod yn hyblyg i fodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn awr ac yn y dyfodol. Byddai unedau craidd a dewisol yn rhoi'r hyblygrwydd hwn ac yn caniatáu am ddatblygu unedau yn barhaus er mwyn cadw i fyny â thechnolegau ac ymarfer sy'n gyfredol ac sy'n dod i'r amlwg.

**C3: Pa arloesedd neu newidiadau yr hoffech chi eu gweld yn y rhaglen brentisiaethau arfaethedig i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn berthnasol, yn gynhwysol, ac yn effeithiol i'r genhedlaeth nesaf o ddysgwyr yng Nghymru?**

Dylai llwybrau at brentisiaeth fod yn agored i bawb, gyda chymorth ychwanegol i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd, i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol ac i'r rhai o aelwydydd ag incwm isel. Dylai llwybrau dilyniant clir gysylltu prentisiaethau ar amrywiol lefelau a chysylltu ag addysg bellach ac addysg uwch, gan roi mwy o gydraddoldeb â llwybrau addysg amser llawn at gyflogaeth. Dylai cyflogwyr fod ynghlwm wrth ddylunio a darparu rhaglenni, gan sicrhau bod cynnwys yn adlewyrchu ymarfer presennol y gweithle a safonau sy'n dod i'r amlwg yn y diwydiant.

Hefyd, dylai Medr ddefnyddio'r cyfle hwn i adolygu'r ffordd orau o wreiddio datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a digidol i ddysgwyr yn well yng nghyd-destun galwedigaethol rhaglen brentisiaeth, yn hytrach na set ar wahân o gymwysterau gorfodol fel sydd wedi'i gosod ar hyn o bryd ym Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW). Fel y nodwyd yn

ein hadolygiad thematig o Cyflwyno cymwysterau sgiliau hanfodol mewn prentisiaethau[2], er bod darparwyr yn galluogi dysgwyr i gyflawni eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (ESW) yn effeithiol ar hyn o bryd, canfuom fod dysgu ac addysgu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn prentisiaethau wedi'u gogwyddo'n annefnyddiol tuag at baratoi ar gyfer asesiadau allanol. Mae tri phrif ffactor yn cyfrannu at hyn: yr amser sydd gan brentisiaid i gwblhau eu cymwysterau ESW dros gyfnod cymharol fyr eu prentisiaeth, yr her ddysgu sylweddol y mae dysgwyr yn aml yn ei hwynebu i ddatblygu'r medrau angenrheidiol ar gyfer eu hasesiadau ESW, a model asesu ar gyfer cymwysterau ESW sy'n gyffredinol i raddau helaeth ac sy'n gofyn bod dysgwyr yn cymhwyso medrau mewn cyd-destunau nad ydynt yn cysylltu'n aml â'u cefndir galwedigaethol. Roedd neges gyson gan ddysgwyr, darparwyr a chyflogwyr fod cael medrau llythrennedd, rhifedd a digidol da yn bwysig i fywyd a gwaith. Fodd bynnag, mae'n well o lawer gan ddysgwyr ddysgu'r medrau hyn trwy gyd-destun eu gwaith a'u hastudiaethau galwedigaethol, a rhoddant bwys mawr ar wneud hynny. O ganlyniad, dylai'r medrau hyn gael eu gwreiddio yng nghynnwys y rhaglen a bod yn benodol yn alwedigaethol.

**C4: Sut olwg fyddai ar lwyddiant ymhen pum mlynedd?**

Yn gryno, byddai llwyddiant i ddysgwyr yn golygu:

- Bod pob dysgwr cyn-16 yn cael gwybodaeth lawn am brentisiaethau fel opsiwn ôl-16
- Bod mwy o ddysgwyr yn ymgymryd â phrentisiaethau
- Dilyniant gwell i ddysgwyr i brentisiaethau ar lefel uwch
- Mynediad tecach i ddysgwyr (yn enwedig yn gysylltiedig â chynrychiolaeth gynyddol o blith grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd, naill ai yn gyffredinol neu mewn meysydd pwnc penodol, ynghyd â gwella mynediad i ddysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig)
- Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn prentisiaethau a mwy o gyfleoedd i brentisiaid barhau i ddysgu Cymraeg
- Cyfleoedd gwell i wella medrau llythrennedd a rhifedd o bwyntiau cychwyn
- Mwy o amser wedi'i ddiogelu i gwblhau agweddau i ffwrdd o'r gwaith ar brentisiaethau
- Cwblhau prentisiaethau'n fwy amserol

Ymhen pum mlynedd, bydd rhaglen brentisiaethau lwyddiannus yng Nghymru yn cael ei darparu gan rwydwaith cadarn a chydlynus o ddarparwyr. Bydd colegau addysg bellach, sefydliadau addysg uwch a darparwyr hyfforddiant annibynnol yn cydweithredu'n ddi-dor, gan weithredu yn unol â'u priod gryfderau yn hytrach na chystadlu, a chreu cadwyn gyflenwi gadarn sy'n cynnig hyder a dewis i ddysgwyr a chyflogwyr. Bydd y cydweithrediad hwn yn sylfaen i gyfres gydlynus o lwybrau o lefel 2 i lefel 6, gyda phob cam wedi'i fapio'n glir fel y gall dysgwyr weld pwyntiau mynediad ac ymadael, ynghyd â'r cyrchfannau gyrfaol y mae pob lefel yn arwain atynt. Bydd gan ddysgwyr brofiad a gwybodaeth alwedigaethol fanwl a byddant yn cyfrannu'n llawn at waith eu cyflogwyr a'r economi leol.

[2] https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2023-11/Cyflwyno%20cymwysterau%20Sgiliau%20Hanfodol%20Cymru%20mewn%20rhaglenni%20prentisiaeth_0.pdf

Bydd ysgolion yn allweddol i lwyddiant y rhaglen newydd, gan gynnig cyngor ac arweiniad sy'n wirioneddol ddiduedd ac annibynnol ynghylch pob opsiwn ôl-16 a sicrhau bod addysg statudol yn paratoi dysgwyr yn briodol i gamu i fyd gwaith trwy brentisiaeth yn 16 oed. Bydd prentisiaethau wir yn cael yr un parch â chymwysterau cyfwerth, gan roi hyder i bobl ifanc a'u teuluoedd eu bod o bwys ac yn cael eu cydnabod, pa lwybr bynnag y dewisant.

Bydd y ddarpariaeth yn hyblyg ac yn cael ei theilwra i anghenion pob dysgwr, gan gyfrif am anghenion unigol. Bydd cynnydd wrth fynd i'r afael â thangynrychiolaeth bresennol grwpiau penodol o ddysgwyr mewn prentisiaethau yn eu cyfanrwydd neu mewn meysydd pwnc penodol. Bydd cyfleoedd ar gael i bob math o gyflogwr, o'r cwmnïau angori mwyaf i'r BBaChau lleiaf.

Bydd llwybrau mynediad amrywiol yn bodoli, gyda phrentisiaethau iau, llwybrau dan arweiniad Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Cymdeithasol (VCSE), a rhaglenni cyflogadwyedd sy'n helpu i gynnwys carfanau newydd o ddysgwyr y gallent gael eu heithrio, fel arall.

Bydd llwyddiant hefyd yn cael ei fesur yn ôl deilliannau: lefelau uchel o gyrhaeddiad amserol a dilyniant i lefelau astudio, hyfforddiant a chyflogaeth uwch, a thystiolaeth o well symudedd cymdeithasol a chynhwysiant. Bydd darparwyr yn ymatebol i newidiadau economaidd, anghenion sgiliau sy'n newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, a mabwysiadu technolegau modern yn gyflym, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial. Byddai data allweddol i gydnabod cynnydd a llywio cynllunio yn cynnwys nifer y dysgwyr sy'n parhau i weithio yn yr un diwydiant a'r rhai sy'n newid y diwydiant y gwnaethant hyfforddi ynddo.

Mae mecanweithiau cyllido yn diogelu cyllid prentisiaethau ar gyfer y rhai sy'n newydd i brentisiaethau a'r rhai sy'n dysgu medrau newydd trwy hyfforddiant, naill ai drwy ymuno â chrefft neu broffesiwn newydd, neu trwy symud ymlaen i rolau newydd neu rolau ar lefelau uwch sy'n gofyn am ddatblygiad gwybodaeth a medrau newydd.

**C5: A ydyw'r diffiniad o brentisiaeth yng Nghymru yn nodi'r hyn y mae angen i'r rhaglen newydd ei gyflawni?**

*'Swydd â thâl gyda hyfforddiant yw prentisiaeth. Mae prentisiaid yn ennill profiad, yn dysgu sgiliau newydd ac yn ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol wrth ennill cyflog. Diffinnir hyn drwy fframwaith prentisiaeth.'*

Er bod y diffiniad yn amlinellu beth mae angen i'r rhaglen newydd ei gyflawni, a'r neges allweddol o fewn y diffiniad yw y bydd prentisiaid yn dysgu medrau **newydd**, byddai'n ddefnyddiol ychwanegu 'trwy hyfforddiant o ansawdd uchel' cyn 'wrth ennill cyflog'.

Mae'n arbennig o bwysig diogelu cyllid prentisiaethau ar gyfer y rhai sy'n newydd i brentisiaethau a'r rhai sy'n dysgu medrau newydd, naill ai wrth ddechrau crefft neu broffesiwn newydd, neu drwy symud ymlaen i rolau newydd neu rolau ar lefelau uwch sy'n gofyn am ddatblygiad gwybodaeth a medrau newydd. Ni ddylai cyllid prentisiaethau fod ar gael i'w ddefnyddio fel dull i gyflogwyr gydnabod medrau presennol eu gweithlu trwy fframweithiau prentisiaethau a chymwysterau a gydnabyddir yn ffurfiol. Mae hyn yn risg arbennig mewn sectorau lle mae gofyniad deddfwriaethol i weithwyr ddal cymwysterau ffurfiol, fel yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion, neu lle mae cyflogwyr mwy yn talu'r ardoll prentisiaethau am adennill eu buddsoddiad mewn talu'r ardoll trwy achredu medrau presennol eu gweithlu trwy raglenni fel arweinyddiaeth neu reoli prosiectau, wedi'u hariannu trwy'r rhaglen prentisiaethau. Dylai Medr ystyried sut mae'n comisiynu rhaglenni sy'n diogelu

yn erbyn y diffiniad o'r brentisiaeth. Gallai enghreifftiau gynnwys gorfodi bod elfennau o raglenni'n cael eu cyflwyno i ffwrdd o'r gwaith, lle mae prentisiaid yn ennill medrau a gwybodaeth newydd, i ffwrdd o weithgareddau o ddydd i ddydd yn y gweithle. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb mewn hawliadau ar bob lefel a meysydd dysgu o lefel 2 i brentisiaethau gradd.

## Apprenticeship Sector Frameworks

**C6: A ydyw'r sectorau hyn yn addas i ddiwallu anghenion yr economi ac anghenion dysgwyr?**

Ydyn

Mae'r rhestr wedi'i mireinio o sectorau yn addas at eu diben ac yn gynrychiolaeth well o'r rhaglen brentisiaethau na'r rhestr bresennol o Feysydd Pwnc Sector (SSAs). Mae rhannu SSA1 blaenorol – a oedd yn cyfrif am hyd at 40% o'r holl brentisiaethau a ddechreuir yn flynyddol – yn dri sector ar wahân (gofal, addysg a'r blynyddoedd cynnar; iechyd a gwyddoniaeth) yn bwysig oherwydd ei faint a'i gymhlethdod. Bydd y set wedi'i mireinio o sectorau yn caniatáu i ddarparwyr a rheoleiddwyr fesur a monitro perfformiad a chynrychiolaeth gymesur bob un o'r elfennau pwysig hyn yn y rhaglen brentisiaethau gyfan yn effeithiol.

**C7: A oes unrhyw sectorau galwedigaethol eang y byddech chi'n disgwyl eu gweld nad ydynt wedi'u cynnwys?**

Nac oes

**C8: Sut dylai fframweithiau sector esblygu i adlewyrchu diwydiannau sy'n dod i'r amlwg, anghenion sgiliau, a blaenoriaethau rhanbarthol yng Nghymru, beth yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer hyn?**

Un o'r heriau y mae darparwyr wedi'u hwynebu wrth fodloni anghenion medrau penodol cyflogwyr yw methu ariannu a chyflwyno elfennau ychwanegol, weithiau heb achrediad, o fewn fframweithiau prentisiaeth h.y. cymwysterau o fath gwerthwyr. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i fedrau newydd ddod i'r amlwg mewn meysydd fel medrau gwyrdd (ôl-osod, cerbydau trydan, pympiau gwres), technolegau cerbydau (cerbydau trydanol a hybrid) a rolau wedi'u galluogi'n ddigidol/gan AI. Yn aml, bydd y medrau sy'n ofynnol yn y sectorau hyn sy'n dod i'r amlwg yn fyr eu natur ac yn ategu cymwysterau/fframweithiau presennol, yn hytrach na gofyn am raglenni newydd cwbl ar wahân. Gallai'r rhaglen newydd gynnwys elfen wedi'i hariannu mewn rhaglenni sy'n ystwyth ac yn ymatebol i anghenion penodol i sector, gan gynnwys cyrsiau byr, hyfforddiant gwerthwyr a hyfforddiant heb achrediad. Petai rhaglenni'n cynnwys unedau craidd wedi'u hategu gan nifer fwy o unedau dewisol y gellir eu hychwanegu'n rheolaidd gydag amser, byddai gan ddarparwyr a chyflogwyr yr hyblygrwydd y mae ei angen arnynt. Hefyd, gallai gwtogi nifer gyfan y gwahanol raglenni y mae eu hangen a sicrhau bod llwybrau'n cael eu cyfleu'n symlach.

## Dysgwyr

**C9: Pa agweddau ar daith y dysgwr ar hyn o bryd mewn prentisiaethau sy'n gweithio'n dda, a ble ydych chi'n gweld cyfleoedd i wella er mwyn cynorthwyo dysgwyr yn well drwy gydol eu dysgu?**

Dros y tair blynedd diwethaf, mae arolygiadau'r deg prif darparwr prentisiaethau yng Nghymru wedi dangos beth sy'n gweithio'n dda a beth gellid ei wella.

Beth sy'n gweithio'n dda:

- Mae dysgwyr yn elwa o addysgu ac asesu difyr, wedi'u strwythuro'n dda, sy'n defnyddio cyd-destunau go iawn, offer digidol a chwestiynu i adeiladu medrau ymarferol a medrau ar lefel uwch.
- Mae'r rhan fwyaf o brentisiaid wedi'u cymell yn dda ac maent yn gyfathrebwyr hyderus sy'n gwneud cynnydd cadarn ac yn ychwanegu gwerth at eu gweithle.
- Mae cefnogaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn nodwedd gadarn, gydag asesu diagnostig, strategaethau wedi'u personoleiddio ac ymarfer cynhwysol yn eu helpu i lwyddo.
- Mae lles a gofal bugeiliol yn gyson gadarn, gyda dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn gallu codi pryderon. Mae mynediad at wasanaethau cymorth iechyd meddwl, ariannol a digidol yn eang ac yn ymatebol.
- Mae perthnasoedd cryf ag aseswyr yn aml yn ffactor allweddol mewn cynnal cymhelliant a chynnydd.

Beth gellid ei wella:

- Mae cynllunio a gosod targedau yn anghyson, gan olygu nad yw rhai dysgwyr yn cael eu hymestyn yn ddigonol a gallant orddibynnu ar aseswyr.
- Mae gormod o brentisiaid yn cwblhau'n hwyrach na'r bwriad, yn enwedig mewn sectorau fel iechyd a gofal cymdeithasol, lle mae'r amser a ryddheir gan gyflogwyr yn gyfyngedig o hyd.
- Weithiau, mae datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn canolbwyntio'n ormodol ar ofynion asesu yn hytrach na defnydd ymarferol yn y gweithle.
- Mae defnydd dysgwyr o'r Gymraeg a'r nifer sy'n cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg yn isel o hyd, er gwaethaf capasiti cynyddol ymhlith staff.
- Mae dealltwriaeth dysgwyr o radicaleiddio ac eithafiaeth wedi'i thanddatblygu, gan fod cyfleoedd i ailedrych ar y themâu hyn ar ôl cyfnod sefydlu yn gyfyngedig.
- Gellid ystyried sut i ddiogelu cefnogaeth barhaus yn gysylltiedig ag ADY i brentisiaid iau, a all fod yn astudio mewn rhaglenni hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith gyda chymheiriaid sydd â hawl statudol i ddarpariaeth dysgu ychwanegol a chefnogaeth trwy Gynllun Datblygu Unigol, oherwydd eu bod mewn addysg amser llawn.

**C10: Pa ganlyniadau dylid eu blaenoriaethu ar gyfer prentisiaid (e.e. cyflogaeth gynaliadwy, cymwysterau), a sut y gellir mesur a chynorthwyo'r rhain yn effeithiol?**

| Canlyniad | Mesur / sut i'w cynorthwyo |
|---|---|
| Cyfraddau cyrhaeddiad | Yn hanesyddol, mae cyfraddau cyrhaeddiad cyflawn fframweithiau wedi bod yn fesur defnyddiol o effeithiolrwydd darparwyr i brentisiaid. |

| | |
|---|---|
| | Trwy ein gweithgarwch arolygu, rydym wedi gweld cyfraddau cyrhaeddiad cenedlaethol prentisiaethau yn tyfu'n sylweddol dros y ddau ddegawd diwethaf. Mae'r rhain yn cael eu mesur trwy ffurflenni data blynyddol gan y darparwr a byddant yn parhau i gael eu mesur felly. |
| Cyfraddau cwblhau amserol | Nid yw cyfraddau cwblhau amserol yn cael eu cipio na'u cyhoeddi'n ganolog ar hyn o bryd, ond maent yn ddangosydd ansawdd allweddol pwysig sy'n ategu cyfraddau cwblhau cyflawn prentisiaethau. Er enghraifft, os oes gan ddarparwr gyfraddau cyrhaeddiad uchel ar gyfer fframwaith, ond mae cyfran sylweddol yn cymryd sawl mis yn hirach i gwblhau'u rhaglen nag yr oedden nhw a'u cyflogwr yn ei ddisgwyl, mae angen cynnwys hyn ym mhrofiad y dysgwr a pha mor effeithiol yw darpariaeth y darparwr. Trwy ein gwaith arolygu a'n gwaith arolygu cyswllt, rydym wedi nodi bod amseroldeb cwblhau prentisiaethau yn faes i'w wella yn sylweddol mewn darparwyr prentisiaethau. Eleni, rydym yn canolbwyntio ar gyfraddau cwblhau amserol yn rhan o ymweliadau cyswllt manylach â darparwyr prentisiaethau, gydag adroddiadau cipolwg arfaethedig i ddilyn. Gall hyn helpu Medr i ystyried sut gall y mesur hwn gefnogi'r rhaglen brentisiaethau yng Nghymru yn y dyfodol. |
| Dilyniant i gyflogaeth barhaus neu lefelau dysgu / prentisiaeth uwch | Nid yw hyn yn cael ei gipio ar hyn o bryd ond gallai fod yn fesur allweddol sy'n cefnogi modelau cyrchfan, fel y rhai sy'n symud ymlaen o raglenni eraill h.y. AB/ysgol/rhaglenni cyflogadwyedd. Byddai defnyddio dynodwr unigryw gwell a all aros gydag unigolion trwy addysg statudol ac i addysg bellach neu uwch a chyflogaeth yn caniatáu am ddealltwriaeth fanylach o lawer o effaith lwyddiannus addysg a hyfforddiant, gan gynnwys prentisiaethau dros gyfnod. |
| Dilyniant o'r ysgol neu raglenni cyn-brentisiaeth (h.y. prentisiaethau iau, llwybrau cyflogaeth) | Gallai'r rhaglen brentisiaethau newydd elwa o gydnabod bod dysgwr sydd wedi symud ymlaen o'r ysgol neu o lwybr cyn-brentisiaeth cydnabyddedig arall yn ganlyniad effeithiol. Dylid ystyried bod hyn yn ganlyniad cadarnhaol, i ddarparwr y brentisiaeth, a hefyd i ddarparwyr y cyn-brentisiaeth neu'r ysgol, gyda'r un mesur i ddysgwyr sy'n symud i brentisiaeth ag i fathau eraill o addysg bellach neu uwch. |

Ar y cyfan, mae gwerthusiad o ganlyniadau fwyaf effeithiol pan nad yw'n seiliedig ar un neu ddau fesur perfformiad, ond yn cyfrif am ystod o ddata. Mae defnyddio ystod o ddata yn ei gwneud hi'n llai tebygol y bydd darparwyr yn ymddwyn mewn modd annefnyddiol trwy geisio dylanwadu ar fesurau perfformiad.

**C11: Sut gallwn ni ddenu mwy o brentisiaid, a/neu garfan ehangach o brentisiaid i'r rhaglen, waeth beth fo'u cefndir neu eu man cychwyn?**

I ddenu carfan ehangach a mwy amrywiol o brentisiaid, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu man cychwyn, mae angen i ni ganolbwyntio ar rôl cyngor ac arweiniad effeithiol, diduedd, mewn ysgolion. Rhaid i gyngor gyrfaoedd ddechrau'n gynnar, bod o ansawdd uchel a bod yn gynhwysol i bob disgybl - nid dim ond y disgyblion nad ystyrir eu bod yn academaidd neu'r disgyblion y mae ysgolion yn eu blaenoriaethu ar gyfer llwybrau chweched dosbarth neu brifysgol traddodiadol. Mae hyn yn sicrhau bod pob person ifanc yn gwbl wybodus am yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael iddynt, gan gynnwys prentisiaethau, a gallant wneud dewisiadau sy'n addas i'w diddordebau, eu doniau a'u huchelgeisiau.

Rhan hanfodol o hyd yw cryfhau partneriaethau rhwng ysgolion a darparwyr prentisiaeth. Dylai ysgolion weithio'n agos gyda darparwyr i ddatblygu llwybrau clir a thryloyw y gall disgyblion a'u teuluoedd eu deall ac ymddiried ynddynt. Gallai hyn gynnwys rhaglenni galwedigaethol cydweithredol 14-16 oed sy'n cyflwyno pobl ifanc i fedrau ymarferol, ynghyd â llwybrau dilyniant o gymwysterau VCSA i raglenni prentisiaeth ffurfiol. Yn holl bwysig, rhaid i'r dull hwn fod yn gyffredinol. Dylid cyflwyno prentisiaethau fel llwybr o ansawdd uchel sydd ar agor i bob dysgwr, ni waeth beth yw eu gallu na'u cefndir, a'u bod yn gyfochrog â llwybrau academaidd ac yr un mor ddilys. Mae gan awdurdodau lleol rôl allweddol yn sicrhau bod ysgolion yn ymhél yn rhagweithiol â'r partneriaethau hyn i sicrhau'r llwybrau dilyniant mwyaf priodol i ddisgyblion. Gall fod yn ddefnyddiol dwyn awdurdodau lleol i gyfrif am ddenu carfan ehangach o brentisiaid fel rhan o'u strategaethau medrau a datblygu economaidd cyffredinol.

Bwriedir i'r gwasanaeth prentisiaethau gwag fod yn 'siop un stop' lle mae darparwyr a chyflogwyr yn cael eu hannog i hysbysebu eu prentisiaethau gwag. Fodd bynnag, yn ymarferol, bach iawn o ddarparwyr a chyflogwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn ac, o ganlyniad, mae prentisiaethau gwag sy'n cael eu hysbysebu ar y safle yn gyfyngedig ar y cyfan. Byddai platfform o'r fath o werth mawr i'r holl randdeiliaid mewn prentisiaethau; fodd bynnag, mae angen gosod mwy o drylwyredd ar ddarparwyr i gynorthwyo eu cyflogwyr partner i hysbysebu cyfleoedd prentisiaeth trwy'r gwasanaeth.

Yn adolygiad Estyn o'r cwricwlwm 16-19 presennol, canfuom wahaniaethau sylweddol yn yr opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr yn eu hardal leol ar ôl iddynt gwblhau Blwyddyn 11. Mae dewis iaith a chyrhaeddiad addysgol dysgwr hefyd yn dylanwadu'n gryf ar yr opsiynau sydd ar gael. Ar y cyfan, nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn gweithio'n ddigon da. Nid oes strategaeth genedlaethol glir ar gyfer dysgu 16-19 oed ac mae gormod o anghysondeb rhwng ac o fewn ardaloedd a darparwyr. Hefyd, canfuom fod ymwybyddiaeth dysgwyr a'u dealltwriaeth o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar ansawdd y wybodaeth a'r cyngor a ddarperir iddynt. Roedd diffyg ymwybyddiaeth ymhlith gormod o ddysgwyr o gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith, fel prentisiaethau.

Mae llysgenhadon prentisiaeth – pobl ifanc ac oedolion sydd wedi cwblhau prentisiaethau'n llwyddiannus neu sy'n ymgymryd â phrentisiaeth ar hyn o bryd – yn chwarae rhan allweddol mewn codi dyheadau. Mae "os gallwch ei weld, gallwch ei fod" yn arbennig o bwysig wrth herio stereoteipiau ac ehangu cyfranogiad ar draws feysydd rhywedd, ethnigrwydd, anabledd a chefndir economaidd gymdeithasol. Dylai ysgolion, darparwyr a chyflogwyr gydweithio i amlygu llysgenhadon amrywiol a all ysbrydoli disgyblion i ystyried bod prentisiaethau yn llwybr cyflawnadwy sy'n cael ei barchu.

## Cyflogwyr / diwydiant

**C12: Sut y gallwn ni ehangu nifer ac ystod y cyflogwyr sy'n cynnig prentisiaethau, yn enwedig busnesau bach a chanolig?**

Y risg sy'n gynhenid pan fydd darparwyr yn defnyddio'r un cyflogwyr ar gyfer carfanau rheolaidd o ddysgwyr yw gorddibynnu ar gontractau â chyflogwyr mawr o gymharu ag ymwneud â mentrau bach i ganolig eu maint na fydd ganddynt yr adnoddau ac na fyddant yn cynnig arbedion maint recriwtio prentisiaid, yn nodweddiadol. Mae hyn yn risg arbennig

gan fod darparwyr yn ymateb i doriadau mewn cyllid ac yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd o ran ble i neilltuo'u hadnoddau er mwyn arbed costau.

Gallai rhai opsiynau ar gyfer ehangu ystod y cyflogwyr sy'n cynnig prentisiaethau gynnwys:

•Cyfyngu ar nifer y rhai sy'n dechrau gydag un cyflogwr mewn blwyddyn h.y. y cwmnïau angori. Gallai fod yn anodd mynd i'r afael â hyn oherwydd cymhlethdodau cyfraniadau'r ardoll prentisiaethau a wna'r cyflogwyr hyn.

•Cynnig cymhellion cyflog neu gyflogaeth barhaus i BBaChau sy'n recriwtio prentisiaid. Byddai angen gweithredu hyn yn ofalus i sicrhau bod cymhellion ariannol yn gwobrwyo cyfleoedd cynaliadwy ac nad ydynt yn creu 'drws tro' o brentisiaid, gyda chyflogwyr yn manteisio ar daliadau cymhelliant.

•Ystyried sut mae rhaglenni prentisiaeth ar y cyd yn y sectorau adeiladu a chreadigol wedi cefnogi BBaChau i groesawu prentisiaid ar gyfer elfennau o'u rhaglen a sut gellid defnyddio dulliau tebyg ar draws sectorau prentisiaeth eraill lle nad oes gan gyflogwyr llai ehangder y gwaith sydd ar gael i gyflogi prentis ar gyfer rhaglen lawn.

•Sicrhau bod gan ddarparwyr y gallu i gefnogi BBaChau i fod yn gyswllt ag ysgolion/rhaglenni cyn-brentisiaeth ar ran busnesau llai. Gellid hwyluso hyn trwy hybiau cyflogaeth/gyrfaoedd a byddent yn cynnwys hysbysebu prentisiaethau gwag a chysylltu darpar brentisiaid â chyflogwyr.

•Datblygu deunyddiau difyr ac addysgiadol wedi'u teilwra i ysgolion, cyflogwyr a dysgwyr.

**C13: Sut gall cyflogwyr ymwneud yn fwy effeithiol â dylunio, cyflawni a gwerthuso rhaglen brentisiaethau er mwyn sicrhau perthnasedd ac effaith?**

Dylai cyflogwyr o bob maint ymwneud yn systematig â llunio fframweithiau prentisiaethau fel bod rhaglenni'n adlewyrchu anghenion medrau presennol ac anghenion medrau sy'n dod i'r amlwg yn y sector. Dylai cynrychiolaeth ar fyrddau cynghori neu grwpiau datblygu fframweithiau perthnasol fod yn gymesur i gyfansoddiad sector penodol ac ni ddylai'r cyflogwyr mwy hynny sydd â'r gallu yn aml i gyfrannu'n fwy rheolaidd eu dominyddu.

Dylai cyflogwyr gael cyfleoedd strwythuredig i gyfrannu at werthuso rhaglenni prentisiaeth trwy ddulliau adborth, gan gynnwys arolygon rheolaidd.

**C14: Sut y gellir cefnogi busnesau'n well wrth weithio gyda phrentis? Pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol i gyflogwyr, cyn cyflogi prentis ac yn ystod taith ddysgu'r prentis?**

Mae angen canllawiau syml ar gyflogwyr ar yr agweddau ymarferol ar gyflogi prentis: trefniadau cyllido, cyfrifoldebau cytundebol, ymrwymiadau amser disgwyliedig a'r gefnogaeth sydd ar gael gan ddarparwyr a'r llywodraeth. Rydym wedi gweld bod ymglymiad cyflogwyr â rhaglenni prentisiaeth yn amrywio'n ormodol ar hyn o bryd, ac nad ydynt yn cymryd rhan yn ddigonol mewn adolygiadau cynnydd a phrin yw'r amser a roddir i brentisiaid fynd i hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith mewn rhai sectorau.

Yn yr achosion gorau, gwelwn fod cyflogwyr yn elwa o bwynt cyswllt pwrpasol o fewn y darparwr hyfforddiant i gynnig cyngor, gwyntyllu problemau a sicrhau bod y rhaglen ar y trywydd cywir. Derbyniant ddiweddariadau rheolaidd am gynnydd y prentis – yn ymwneud â dysgu technegol a datblygiad personol – sy'n helpu cyflogwyr i integreiddio'r prentis yn fwy effeithiol i'w gweithlu. Yn aml, mae profiadau prentisiaid yn y gweithle wedi'u seilio ar brofiadau'r person neu'r bobl y maen nhw'n gweithio gyda nhw'n rheolaidd. O ganlyniad, gall profiadau prentisiaid amrywio. Byddai mentor/anogwr dynodedig yn y gweithle yn gam cadarnhaol ymlaen. Dull posibl fyddai dilysu staff o'r fath trwy fynychu sesiwn hyfforddiant fer i fentoriaid/anogwyr er mwyn caniatáu iddynt ennill gwybodaeth ac arweiniad ar sut beth yw mentora ac anogaeth dda.

Opsiynau eraill a allai gefnogi busnesau sy'n gweithio gyda phrentisiaid yn well:

•Gallai cyfleoedd dysgu proffesiynol i reolwyr llinell a mentoriaid y gweithle helpu i gefnogi prentisiaid yn y gweithle, gan sicrhau eu bod yn cael cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel.

•Gallai rhwydweithiau cymheiriaid a fforymau i gyflogwyr helpu i rannu arfer dda, yn enwedig i BBaChau sy'n cyflogi prentisiaid am y tro cyntaf.

•Bod gwybodaeth gliriach, fwy hygyrch, am lwybrau prentisiaeth a chyfleoedd dilyniant ar gael i brentisiaid.

**C15: Sut gallwn ni sicrhau rhaglen sy'n cefnogi datblygiad economaidd rhanbarthol a chynllunio sgiliau sy'n seiliedig ar le?**

Trwy ein gweithgarwch arolygu, rydym yn canfod yn gyffredinol fod prif ddarparwyr prentisiaethau yn cynllunio'u darpariaeth yn dda i fodloni anghenion eu cymunedau lleol a'u rhanbarthau. Yn gyffredinol, cânt eu hysbysu'n dda gan bartneriaethau medrau rhanbarthol a fforymau diwydiant, ac mae ganddynt gynrychiolaeth dda ynddynt, ac yn aml, maent wedi datblygu'u byrddau cyflogwyr eu hunain i ddylanwadu ar y llwybrau prentisiaeth a gyflwynant. Rydym yn gweld bod darparwyr yn ymatebol ac yn hyblyg yn wyneb anghenion medrau sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft cynnwys technolegau trydanol a hybrid mewn prentisiaethau cerbydau modur, neu'r medrau sy'n ofynnol ar gyfer technolegau gwresogi adnewyddadwy mewn prentisiaethau adeiladu.

Fodd bynnag, bach iawn o enghreifftiau sydd o gydweithredu rhanbarthol rhwng darparwyr a phartneriaethau medrau rhanbarthol i fapio darpariaeth a llwybrau dilyniant yn glir. Mae hyn yn ei gwneud hi'n heriol i brentisiaid presennol neu ddarpar brentisiaid gael dealltwriaeth lawn a diduedd o ba lwybrau sydd ar gael iddynt yn eu rhanbarth. Byddai partneriaethau sector, partneriaethau medrau rhanbarthol a grwpiau cynghori cyflogwyr cryfach yn helpu i gysoni'r ddarpariaeth â blaenoriaethau economaidd lleol a chenedlaethol. Hefyd, mae cyfle wrth ddatblygu rhaglen newydd i gynnwys mwy o hyblygrwydd er mwyn caniatáu i ddarparwyr ymateb yn well i'r anghenion hyn, fel y disgrifiwyd yn gynt yr ymateb.

## Darparwyr Dysgu

**C16: Sut gall darparwyr ymwneud yn fwy effeithiol â dylunio, cyflawni a gwerthuso rhaglenni prentisiaethau er mwyn sicrhau perthnasedd ac effaith?**

Daw darparwyr ag arbenigedd uniongyrchol mewn addysgeg, cymorth i ddysgwyr ac asesu gyda nhw. Mae eu hymglymiad cynnar â datblygu fframweithiau prentisiaeth yn sicrhau nid

yn unig bod rhaglenni'n cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr ond eu bod hefyd yn gyflawnadwy, yn gynhwysol ac o ansawdd uchel. Dylid dylunio rhaglenni ar y cyd â chyflogwyr, darparwyr a'r llywodraeth, gyda darparwyr yn helpu i lunio cynnwys y cwricwlwm, gofynion mynediad a llwybrau dilyniant. Staff darparwyr fyddai â'r arbenigedd a'r profiad i ddatblygu ac ysgrifennu unedau darparu ac asesu os hynny fyddai'r dull a fabwysiadir yng nghynnwys unrhyw raglenni prentisiaeth newydd.

Dylai darparwyr weithio'n agosach â chyflogwyr i ddarparu dysgu ar y cyd, gan wreiddio prosiectau'r gweithle a chyfraniad gan y diwydiant mewn addysgu ffurfiol.

Dylai darparwyr gyflawni eu dyletswydd i gefnogi eu dysgwyr yn llawn, yn enwedig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae angen i'r darparwyr hyn wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael at weithgareddau i ffwrdd o'r gwaith fel rhan o'u hwythnos waith a'u bod yn cael at gymorth yn y gweithle, fel y rhan fwyaf o raglenni prentisiaeth eraill. Dylai'r rhaglen newydd ailddatblygu cytundeb dysgu'r brentisiaeth y mae pob parti yn ymrwymo i'w gyflawni, er enghraifft cynnwys amser gofynnol a ryddheir ar gyfer dysgu i ffwrdd o'r gwaith. Byddai hyn yn cefnogi dull mwy cyson ac yn cefnogi'r rhwydwaith ehangach i weithio'n fwy cydweithredol i fynd i'r afael ag adegau pan nad yw cyflogwyr yn cyflawni'r ddyletswydd hon.

Byddai cydweithredu cryfach ar draws darparwyr – rhannu adnoddau, arbenigedd a chyfleusterau – yn helpu i ehangu mynediad i hyfforddiant arbenigol a gwella tegwch darpariaeth yn rhanbarthol.

Dylai darparwyr gael cyfleoedd strwythuredig i gyfrannu at y gwerthusiad o raglenni prentisiaeth, gan ddefnyddio eu data ar lais y dysgwr, cynnydd, cwblhau a chyrchfannau.

Byddai prosesau gwerthuso ar y cyd (yn cynnwys dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr) yn rhoi darlun llawnach o effaith rhaglenni ac yn amlygu meysydd i'w gwella yn barhaus.

Mae angen i ddarparwyr gael at ddatblygiad proffesiynol parhaus i sicrhau bod staff yn gyfarwydd â safonau diweddaraf y diwydiant a'r addysgeg ddiweddaraf. Bydd buddsoddiad strategol parhaus mewn seilwaith ac offer digidol yn helpu darparwyr i gyflwyno modelau prentisiaeth arloesol, hyblyg, sydd wedi'u haddasu'n unigol.

**C17: Beth sy'n gweithio'n dda a beth mae angen ei gryfhau o safbwynt darparwr?**

Dros y tair blynedd diwethaf, mae arolygiadau'r deg prif ddarparwr prentisiaethau yng Nghymru wedi dangos beth sy'n gweithio'n dda a beth y mae angen ei wella.

Beth sy'n gweithio'n dda:

•Mae uwch arweinwyr yn gosod blaenoriaethau strategol clir sy'n cyd-fynd â pholisi cenedlaethol a rhanbarthol ac sy'n dangos ymrwymiad cadarn i gydweithredu a gwella.

•Rydym wedi gweld enghreifftiau arbennig o dda o weithio effeithiol mewn partneriaeth o fewn consortia o ddarparwyr prentisiaethau, lle mae'r holl bartneriaid yn gosod profiad y dysgwr yn ganolog i bob gweithgaredd ac yn cyfrannu'n llawn at bob agwedd ar waith y consortiwm yn gadarnhaol ac yn ystyrlon. Mae'r diwylliannau arwain cynhwysol ar draws y consortia yn gefnogol, yn gydweithredol, gyda gwerthoedd cyffredin yn sylfaen iddynt, gan helpu i fynd i'r afael ag anghenion medrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Dylai Medr ystyried yn ofalus sut gall model cyllido wedi'i ariannu gan grant fynd ati i gadw rhywfaint o'r cydweithredu effeithiol hwn sydd wedi digwydd dros y degawd diwethaf.

•Mae hunanwerthuso a sicrhau ansawdd wedi'u hen sefydlu, gyda strwythurau llywodraethu'n cynnig eglurder ac atebolrwydd.

•Mae dysgu proffesiynol yn gryfder i'r sector, gyda hyfforddiant rheolaidd ar addysgeg, diogelu, darpariaeth ddwyieithog ac ymarfer cynhwysol.

•Mae darparwyr yn ymateb yn dda i anghenion medrau sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft mewn technolegau gwyrdd a gwyddorau iechyd, trwy bartneriaethau â chyflogwyr a chyrff medrau rhanbarthol.

Beth sydd angen ei wella:

•Mae ymglymiad cyflogwyr â rhaglenni prentisiaeth yn amrywio'n ormodol ac nid ydynt yn cymryd rhan yn ddigonol mewn adolygiadau cynnydd ac mae cymorth cyfyngedig i ddysgu i ffwrdd o'r gwaith.

•Nid yw cynllunio ar gyfer gwella bob amser yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir na mesuradwy, yn enwedig ynghylch amser cwblhau.

•Mae pwysau ariannol ac amrywiaeth yn niferoedd dysgwyr yn peri heriau cynyddol o ran cynaliadwyedd, gan ofyn bod darparwyr yn cydbwyso effeithlonrwydd â chynnal ansawdd.

•Er bod mwy o gapasiti gan ddysgu proffesiynol ar gyfer dysgu dwyieithog, nid yw hyn yn cael digon o effaith ar gyfran y dysgwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ac yn cwblhau eu hasesiadau yn Gymraeg.

## Y Gymraeg

**C18: A oes gan ein hegwyddorion lefel uchel ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol ar y canlynol:**

**(a) cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a**

**(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Yn benodol:**

**• Sut gallwn ni annog mwy o bobl i fanteisio ar gyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog ledled Cymru?**

Dylai prentisiaethau gael eu cyflwyno mewn ysgolion yn llwybr dwyieithog o'r cychwyn cyntaf, fel bod opsiynau cyfrwng Cymraeg yn weladwy ac yn rhywbeth i anelu atynt.

Mae angen gwybodaeth glir ar gyflogwyr am fuddion busnes a buddion diwylliannol cynnig prentisiaethau dwyieithog, fel gwell gwasanaeth i gwsmeriaid, cadw staff ac ymgysylltu â'r gymuned.

Dylid darparu cymorth ychwanegol i gyflogwyr a darparwyr sy'n ymrwymo i gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg, er enghraifft trwy gyllid targedig neu adnoddau sy'n cael eu rhannu.

Gallai Medr weithio gyda'r sector i nodi a hyrwyddo llysgennad-brentisiaid sy'n siarad Cymraeg, sydd wedi dysgu'n ddwyieithog neu sydd wedi gwella'u medrau Cymraeg oherwydd eu rhaglen brentisiaeth er eu budd nhw a'u cyflogwr.

Dylai darparwyr weithio'n agos gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gael at gyngor a chymorth penodol i sector.

- **Sut gellir ymgorffori sgiliau'r Gymraeg, yn enwedig Cymraeg ar gyfer y gweithle, yn fwy ystyrlon ac yn ehangach mewn rhaglenni prentisiaeth i gefnogi dwyieithrwydd, ymateb i anghenion cyflogwyr a hunaniaeth ddiwylliannol ar draws sectorau?**

Dylai pob dysgwr ar brentisiaeth allu datblygu'u medrau Cymraeg tra byddant yn dilyn eu rhaglen. Dylai prentisiaethau wreiddio cyfleoedd i ddatblygu medrau Cymraeg perthnasol i sector yn uniongyrchol yng nghyd-destun galwedigaethol y cyflogwr, gan ganolbwyntio ar eirfa, cyfathrebu a senarios ymwneud â chwsmeriaid sy'n adlewyrchu cyd-destunau gwaith go iawn. Yn yr un modd â thrwy wreiddio medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, mae'n well o lawer gan ddysgwyr ddysgu'r medrau hyn trwy gyd-destun eu gwaith ac astudiaethau galwedigaethol ac maent yn rhoi pwys ar wneud. Dylai cyflogwyr a darparwyr weithio gyda'i gilydd i amlygu medrau Cymraeg penodol sy'n berthnasol i'w sector, gan sicrhau bod hyfforddiant yn ystyrlon ac yn ymarferol.

**C19: A oes unrhyw ffactorau y dylid eu hystyried a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar y canlynol:**

**(a) cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a**

**(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Yn ein Hadroddiad Thematig: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sectorau ôl-16[3] (Mawrth 2025), amlygom feysydd i'w gwella ar draws addysg bellach a darparwyr prentisiaethau sy'n ofynnol i dyfu'r cynnig dwyieithog a chyfrwng Cymraeg presennol.

Roedd dau argymhelliad i golegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau gynorthwyo â gwella medrau iaith y gweithlu:

- Gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i sicrhau cysondeb yn y ffordd y mae ymarferwyr yn cael caniatâd i fynychu hyfforddiant a gwersi iaith, gyda'r nod o sicrhau bod ganddynt amser digyswllt yn eu hamserlenni addysgu i ymgymryd â'r rhain heb ychwanegu at eu llwyth gwaith. Y prif rwystr i staff sy'n dymuno mynychu hyfforddiant yw diffyg amser neu bwysau amser. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer cyrsiau'r rhaglen Cymraeg Gwaith. Nid yw rheolwyr llinell bob amser yn barod i ryddhau staff. Gan amlaf, mae'n rhaid i staff hefyd fynychu cyrsiau yn ychwanegol at eu horiau addysgu neu eu dyletswyddau arferol eraill, sy'n effeithio ar eu gallu i ymuno â chyrsiau a'u cwblhau.
- Parhau i fireinio eu cynnig datblygu proffesiynol i ymarferwyr gynyddu'u medrau Cymraeg a'u haddysgeg ddwyieithog gyda'r nod strategol o symud staff a myfyrwyr/prentisiaid ar hyd y continwwm iaith yn bwrpasol. Ac eithrio ychydig bach iawn o sefydliadau, mae angen i golegau a darparwyr prentisiaethau ymestyn y gwaith da a wnaethant o ran cynyddu'r defnydd o 'ychydig bach o ddysgu cyfrwng Cymraeg' mewn gweithgareddau dysgu er mwyn

[3] https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/adroddiad-thematig-cynyddu-defnydd-or-gymraeg-yn-y-sectorau-ol-16/

anelu at lefelau uwch ar y pyramid neu'r continwwm iaith i wireddu nodau polisïau fel Cymraeg 2050.

**C20: A oes unrhyw ffactorau eraill i'w hystyried er mwyn sicrhau na fyddai dyluniad y rhaglen newydd yn cael effeithiau andwyol, neu a fyddai'n lleihau effeithiau andwyol ar y canlynol:**

**(a) cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a**

**(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

I gynyddu nifer y prentisiaid sy'n defnyddio ac yn gwella'u medrau Cymraeg, dylai darparwyr gynnig gallu astudio'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol, nid dibynnu ar ddarpar brentisiaid i ofyn am hynny.

Dylid cydnabod y gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg a hyrwyddo ei fod yn fedr buddiol sy'n ychwanegu gwerth at ragolygon gwaith prentisiaid. Hefyd, gall roi pwynt gwerthu unigryw iddynt os byddant yn penderfynu gweithio'n hunangyflogedig, gan alluogi iddynt farchnata eu hunain i gwsmeriaid sy'n dymuno dewis crefftwyr Cymraeg eu hiaith, lle bo'n bosibl.

## Prentisiaethau cynhwysol

**C21: Pa rwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o ran cael mynediad at brentisiaethau a llwyddo ynddynt, a sut gall dyluniad y rhaglen newydd fynd i'r afael â'r heriau hyn ac annog cadw dysgwyr?**

Mae Estyn wedi nodi bod grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn wynebu cymysgedd o heriau ymarferol a diwylliannol wrth gael at brentisiaethau a llwyddo ynddynt, gan gynnwys:

•Mynediad anghyfartal at wybodaeth ac arweiniad amserol a digonol

•Darpariaeth anghyson ar draws Cymru

•Gwahaniaethu go iawn neu amgyffrediad o wahaniaethu, e.e. o ran rhywedd, hil, anabledd

•Costau cudd, e.e. ar gyfer teithio, offer a dillad gwaith

•Mynediad digidol anghyfartal

•Diffyg esiamplau gweledol ym maes prentisiaethau, gan ei gwneud hi'n anos i ddarpar brentisiaid weld eu hunain yn llwyddo

•Rhwystrau ieithyddol, diwylliannol neu rwystrau cyfathrebu

•Meini prawf cymhwysedd, gan gynnwys oedran ac am ba hyd y mae rhywun wedi bod mewn rôl

•Modelau darparu anhyblyg

•Ymarfer cynhwysol anghyson a dealltwriaeth anghyson o anghenion cymorth

•Gweithdrefnau anghyson ar gyfer nodi dysgwyr sydd mewn perygl a gofal, cymorth ac arweiniad dilynol iddynt

•Trylwyredd anghyson mewn prosesau hunanwerthuso i amlygu anghydraddoldebau mewn mynediad a deilliannau.

Dylai'r rhaglen newydd ymateb gyda hyrwyddo cynhwysol, cymhwysedd teg, cymorth ariannol targedig a chydweithredu cryfach rhwng cyflogwyr a darparwyr i greu amgylchedd lle y gall pob dysgwr lwyddo a gwneud cynnydd.

Mae nifer y prentisiaid yng Nghymru y nodwyd bod ganddynt anabledd a/neu anhawster dysgu ychwanegol wedi cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf, gyda chynnydd sylweddol yn 2022/23. Mae hyn yn cyd-fynd â chynnydd yn y diagnosis o awtistiaeth ac ymwybyddiaeth gynyddol o sut mae niwrowahaniaeth yn effeithio ar ddysgu. Trwy ein gweithgarwch arolygu, rydym wedi gweld gwelliannau sylweddol ymhlith darparwyr o ran y gallu i nodi, diagnosio, cefnogi a symud y dysgwyr hyn yn eu blaen, fel yr amlygir mewn nifer o astudiaethau achos a gyhoeddwyd o'n cylch diweddar o arolygiadau prentisiaethau[4].

Yn hanesyddol, nid yw dysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn prentisiaethau. Fodd bynnag, mae'r darlun wedi gwella'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Rhwng 2018-2019 a 2021-2022, mae cyfran y dysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol sydd wedi dechrau prentisiaeth yn newydd wedi cynyddu'n raddol o 3.1% i 4.9%. Yn 2022-2023, fe wnaeth hyn fwy na dyblu i 10.2%. Er nad oes unrhyw ddata cyhoeddedig i nodi'r sectorau pwnc penodol sy'n cyfrif am y cynnydd hwn, mae ein gweithgarwch arolygu wedi nodi bod y sector iechyd a gofal cymdeithasol wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol, sy'n aml yn troi at rolau prentisiaeth trwy gynlluniau nawdd cyflogwyr. Mewn ychydig bach iawn o achosion, nid yw darparwyr wedi addasu eu darpariaeth yn ddigon da i ddarparu ar gyfer carfanau prentisiaid mwy amrywiol, yn benodol, nid ydynt wedi cefnogi dysgwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf yn ddigon da wrth iddynt fynychu sesiynau i ffwrdd o'r gwaith.

Yn hanesyddol, mae prentisiaid gwrywaidd neu fenywaidd wedi dominyddu'n sylweddol mewn nifer o feysydd pwnc sector. Bu ymdrech ar y cyd i geisio unioni'r cydbwysedd mewn rhai sectorau, yn enwedig yn y blynyddoedd diwethaf yn achos menywod mewn prentisiaethau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) a phrentisiaethau adeiladu. Yn hanesyddol, menywod sy'n cael eu tangynrychioli fwyaf mewn peirianneg, adeiladu a gweithgynhyrchu.

Mae'r rhaglen newydd yn cynnig cyfle i adolygu'r ffordd orau o wreiddio datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a digidol allweddol i ddysgwyr o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Mae gofynion presennol ESW o fewn SASW yn rhwystr, yn enwedig yn gysylltiedig â modelau asesu a chyfyngiadau hygyrchedd i ddysgwyr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.

Dylai'r rhaglen newydd sicrhau bod darparwyr yn parhau i gynorthwyo cyflogwyr yn weithgar â recriwtio carfanau mwy amrywiol, trwy godi ymwybyddiaeth a chefnogi recriwtio teg i brentisiaethau gwag. Hefyd, dylent ddangos sut maent yn gwerthuso taith ddysgu prentisiaid o gefndiroedd sydd wedi'u tangynrychioli yn sensitif, gan sicrhau bod gan brentisiaid ymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn a bod eu rhaglen wedi'i theilwra yn ôl eu hanghenion unigol.

**C22: Pa strategaethau recriwtio wedi'u targedu all gefnogi cyfranogiad gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol?**

Awgrymwn y gallai strategaethau recriwtio wedi'u targedu gynnwys:

[4] https://www.estyn.llyw.cymru/chwilio-am-adnoddau-gwella/

•Ymgyrchoedd allymestyn sydd wedi'u teilwra i gyfleoedd y farchnad lafur leol sydd wedi'u targedu at ysgolion, colegau, gwasanaethau gwaith ieuenctid, sefydliadau trydydd sector a rhwydweithiau gofal i sicrhau bod grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn cael gwybodaeth a chyngor gyrfaol amserol, clir a digonol, yn enwedig mewn ardaloedd â lefel uwch o ddifreintedd a chymunedau gwledig.

•Adnoddau amlieithog wedi'u symleiddio, gydag astudiaethau achos a chwestiynau cyffredin sy'n mynd i'r afael â meysydd allweddol o bryder sy'n hysbys i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.

•Defnyddio cyn-brentisiaid sydd â phrofiad o'r maes yn llysgennad-brentisiaid i herio stereoteipiau, gan hyrwyddo'r cysyniad 'os gallwch ei weld, gallwch ei fod'.

•Annog cyflogwyr i fabwysiadu dulliau recriwtio cynhwysol fel recriwtio cyd-destunol, symleiddio prosesau ymgeisio ac allymestyn y tu hwnt i sianeli hysbysebu traddodiadol.

• Codi ymwybyddiaeth a darparu dysgu proffesiynol i gyflogwyr ynghylch hygyrchedd ac ymarfer cynhwysol y gweithle, gan gynnwys deall gwahaniaethau synhwyraidd a bodloni anghenion dysgu.

**C23: A oes gan y cynigion unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol, neu ganlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant? Pa arferion da allech chi eu rhannu?**

Nac oes. Fodd bynnag, bydd ffactorau gweithredu yn dylanwadu, megis:

•Y manylion o fewn cytundebau grant a'r graddau y mae egwyddorion cyllido yn adlewyrchu costau darparu uwch posibl ar gyfer prentisiaid sydd â nodweddion gwarchodedig e.e. asesiadau o anghenion, cymorth arbenigol ac addasiadau rhesymol

• Gofynion atebolrwydd a monitro, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â chasglu data a hunanwerthuso.

Rydym wedi darparu enghreifftiau o arfer dda wrth ymateb i gwestiynau blaenorol.

**C24: A ddylem ni barhau i ariannu'r rhaglen prentisiaethau â chymorth a'r Cynllun Cymhelliant i Gyflogwyr? Eglurwch eich ateb, os gwelwch yn dda.**

Dylech. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ddiweddar Estyn yn awgrymu y gellid eu mireinio. Bydd cyflwyno'r rhaglen newydd yn caniatáu am adnewyddu prentisiaethau â chymorth fel eu bod yn cyd-fynd yn well â chyfleoedd mynediad ac ymadael. Yn ddelfrydol, dylai prentisiaeth â chymorth gynnwys:

•Nodi anghenion cymorth ychwanegol yn gynnar (anawsterau dysgu, anableddau, bylchau mewn llythrennedd/rhifedd)

•Dulliau wedi'u cynnwys a'u cydlynu gan anogwyr swydd hyfforddedig a chymorth arbenigol arall

•Addasiadau a strategaethau wedi'u gwahaniaethu mewn addysgu ac asesu

•Ymgysylltu ac ymrwymiad gan gyflogwyr i ddarparu amser, addasiadau a chymorth angenrheidiol

•Monitro ac ymyrraeth barhaus os aiff dysgwyr ar ei hôl hi

•Cyfleoedd i ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr sydd wedi'u heithrio rhag rhai gofynion, barhau i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol

•Hyblygrwydd mewn modelau darparu (cyfunol, yn y gwaith/i ffwrdd o'r gwaith) yn addas i anghenion dysgwyr

•Opsiynau dwyieithog / cyfrwng Cymraeg, lle bo'n briodol

•Llwybrau a phontio clir

•Cydweithredu effeithiol rhwng ysgolion, colegau, awdurdodau lleol, cyflogwyr

Mae prentisiaethau â chymorth yn cynnig llwybr pwysig i ddysgwyr ag anghenion cymorth ychwanegol a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag gwaith. Maent yn cynnig cymorth strwythuredig, darpariaeth arbenigol a dysgu teilwredig, gan alluogi'r dysgwyr hyn i ennill medrau, cymwysterau a chyfleoedd gwaith ystyrlon.

Mae ein gweithgarwch arolygu ar draws yr holl brif ddarparwyr dros y tair blynedd diwethaf wedi nodi mai ychydig bach iawn o enghreifftiau o brentisiaethau â chymorth sy'n cael eu darparu. Byddai dwyn y rhaglenni prentisiaeth hyn sy'n cael eu rhannu o fewn cwmpas y trefniadau newydd yn sicrhau mynediad teg i'r llwybrau hyn ar draws Cymru a chyfle i rannu ymarfer a gwella profiadau a chyfleoedd dysgwyr.

Felly, cytunwn fod angen parhau i'w hariannu fel nad yw prentisiaid yn cael eu hatal rhag cyfleoedd ac argymhellwn fod Medr yn adolygu pa mor effeithiol y mae'r rhaglen bresennol yn cael ei thargedu a'i darparu o gymharu â phroffiliau targed blynyddol. Dylai hyn gynnwys ymgynghori â'r ystod lawn o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli i adeiladu dealltwriaeth o'r rhesymau dros y diffyg ymglymiad â'r rhaglen.

Yn yr un modd, mae'r Cynllun Cymhelliant i Gyflogwyr yn adnodd gwerthfawr wrth annog cyflogwyr, yn enwedig BBaChau, a all fod yn newydd i brentisiaethau, i greu cyfleoedd nad ydynt yn bodoli fel arall mewn rhannau amrywiol o'r wlad. Rydym yn cefnogi parhau â'r cynllun hwn, ochr yn ochr ag adolygiad rheolaidd o lefelau cymhelliant, amodau a chysondeb â'r cymorth, yr hyfforddiant a'r arweiniad ehangach a awgrymir i gyflogwyr a amlinellir uchod er mwyn sicrhau ei fod yn addas at ei ddiben o hyd. Bydd hyn yn cydbwyso'r angen am ddenu cyflogwyr newydd a chynyddu cyfleoedd gyda'r rheidrwydd i wella lefelau cadw a chyflawni a dangos gwerth am fuddsoddiad cyhoeddus.

**C25: A oes opsiynau eraill yn ogystal / yn lle hynny a fyddai'n helpu i gynorthwyo prentisiaethau gynhwysol yn fwy?**

Fe wnaeth adolygiad thematig Estyn, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, o'r Cwricwlwm Medrau Byw yn Annibynnol (MBA) mewn Addysg Bellach[5] nodi sut mae disgwyliadau gwahanol dysgwyr, cyflogwyr, colegau ac asiantaethau cyflogaeth yn rhwystro llwyddiant y rhaglen

[5] https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/y-cwricwlwm-medrau-byw-yn-annibynnol-mba-mewn-addysg-bellach-creu-cwricwlwm-yn-seiliedig-ar-fedrau-syn-canolbwyntio-ar-unigolyn/

astudio interniaeth a gefnogir. Dylai Medr gyfrif am ganfyddiadau'r adolygiad hwn yng nghynigion y cwricwlwm a llwybrau dilyniant diwygiedig arfaethedig.

Dylai'r rhaglen newydd sicrhau bod mecanwaith llais y dysgwr sy'n targedu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn cael ei gynnwys, fel bod eu lleisiau i'w clywed a bod problemau'n cael eu hamlygu a'u datrys yn gynnar.

Dylai Medr ystyried tystiolaeth o effeithlonrwydd prentisiaethau â chymorth a rennir wrth sicrhau llwybrau i waith â thâl i bobl ag anawsterau dysgu ac anableddau, a ph'un a fyddai'r modelau presennol o brentisiaethau cynhwysol, â chymorth, yn elwa o gynnwys y model hwn er mwyn ateb amrywiaeth ehangach o anghenion dysgwyr a chynyddu cyfraddau cyflogaeth.

Dylai Medr archwilio sut gall hyblygrwydd o fewn prentisiaethau cynhwysol yn y rhaglen newydd fodloni anghenion y nifer gynyddol o ddysgwyr sy'n cyrraedd sefydliadau addysg bellach sydd heb gyflawni lefel 1 neu uwch, gan gynnwys y rhai sy'n cyrraedd â phrofiad o addysg heblaw yn yr ysgol.

**C26: Beth gallem ni ei wneud i gynorthwyo cyfranogiad mewn prentisiaethau ar gyfer y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol?**

Mae darparwyr wedi cryfhau'r gwaith o nodi anghenion dysgu prentisiaid a chymorth iddynt, gan gynnwys cydlynu arbenigol a chael at gymorth yn gynt; mae hyn wedi cynyddu nifer y dysgwyr a nodwyd ac a gefnogwyd, ac mae wedi gwella ymatebed. I gynorthwyo â chyfranogiad ymhellach, dylai Medr:

- Ddatblygu rhaglenni cyn-brentisiaeth sy'n cynnig cam at fframweithiau llawn i'r rhai sydd bellach oddi wrth y farchnad lafur h.y. interniaethau â chymorth, rhaglenni cyflogaeth.
- Cryfhau cysylltiadau â rhaglenni galwedigaethol (14–16) a mentrau VCSE i ehangu llwybrau mynediad.
- Gofyn bod staff cymorth arbenigol a chyfieithwyr ar gael yn ystod recriwtio a sefydlu
- Sicrhau bod opsiynau modiwlaidd a rhan amser ar gael i ddarparu ar gyfer anghenion prentisiaid anabl a phrentisiaid â chyflyrau iechyd a chyfrifoldebau gofalu
- Ystyried cyflwyno safonau cenedlaethol ar gyfer ymarfer cynhwysol mewn recriwtio i brentisiaethau a'u darparu
- Rhannu arfer orau, tystiolaeth o beth sy'n gweithio a modelau recriwtio cynhwysol
- Ystyried sut i gefnogi mynediad at brentisiaethau ar gyfer dysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig